coeliac uk
live well gluten free
byw'n dda yn rhydd o glwten

# Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis
# Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis

Dyddiad ac amser: Dydd Mawrth 4 Mai, 12:35-13:25
Lleoliad: Zoom

*Yn bresennol: Rhun ap Iorwerth – Cadeirydd (RaI), Tristan Humphreys – Ysgrifennydd/Coeliac UK (TH), Siân Evans (SE), Heledd Roberts, Gwawr James (GJ), Dr Jill Swift (JS), Claire Constantinou (CC), Fiona Newsome (FN)*

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:**<br><br>Dr Ieuan Davies, Alison Jones (AJ), Dr Richard Cousins, Llyr Gruffydd, Rebecca Bowen |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>a. Newidiadau a chymeradwyo'r cofnodion<br><br>Gofynnodd RaI a fyddai modd i rywun gymeradwyo cywirdeb y Cofnodion, a soniodd am y ffaith bod angen proses ar gyfer sefyllfaoedd pan nad oedd unrhyw un wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol. Cydnabu RaI fod y cofnodion yn gywir. TH i gylchredeg y cofnodion yn dilyn y cyfarfod.<br><br>b. Materion sy'n codi<br><br>Rhoddodd CC y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am yr ymdrechion a wneir i ddeall gwasanaethau dietetig ar gyfer clefyd seliag yn well ledled Cymru. Mae CC wedi cynhyrchu arolwg dienw ac wedi'i rannu â dietegwyr ym mhob bwrdd iechyd. Hyd yn hyn, mae saith ymateb wedi dod i law.<br><br>Roedd yr arolwg yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:<br><br>- Sut mae eich gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion sydd newydd gael diagnosis o glefyd seliag?<br>- A gynigir apwyntiad gyda'r dietegydd i gleifion sydd newydd gael diagnosis yn eich Bwrdd Iechyd?<br>- Wedi i gleifion sydd newydd gael diagnosis gael apwyntiad cychwynnol, pa ofal dilynol sy'n cael ei gynnig o fewn y gwasanaeth?<br>- Ble yn eich gwasanaeth y mae cleifion sydd newydd gael diagnosis o glefyd seliag yn cael eu gweld? A ydynt yn cael eu gweld mewn lleoliad gofal sylfaenol neu leoliad gofal eilaidd?<br>- Yn eich Bwrdd Iechyd, a yw cleifion yn cael eu gweld gan ddietegydd gastroenteroleg arbenigol?<br>- A yw cleifion yn eich Bwrdd Iechyd yn cael adolygiad blynyddol fel mater o drefn? Os felly, ble cafodd yr adolygiad blynyddol ei gynnal?<br>- A gynhelir sesiynau addysg grŵp ar gyfer clefyd seliag? Pa ddulliau addysgol neu ddulliau hyfforddi sy'n cael eu defnyddio fel rhan o'r llwybr presennol?<br>- A oes gan y Bwrdd Iechyd arweinydd clinigol ar gyfer clefyd seliag? |

| | |
|---|---|
| | - A oes gennych chi adnodd dietetig pwrpasol ar gyfer gwasanaethau gastroenteroleg? A oes gennych chi adnodd dietetig pwrpasol ar gyfer clefyd seliag?<br>- Pa adnodd cyfwerth ag amser llawn sy’n cael ei ddyrannu ar gyfer clefyd seliag?<br><br>Mae'r atebion ar gyfer yr arolwg wedi'u nodi mewn dogfen Excel, ac mae CC yn fodlon dosbarthu’r ddogfen honno ymhlith aelodau'r grŵp hwn. Soniodd CC fod amrywiaeth eang o atebion wedi dod i law, a bod fawr ddim cysondeb yn yr atebion o ran yr hyn y mae pob Bwrdd Iechyd yn ei wneud; dim ond dau o'r saith Bwrdd Iechyd sydd wedi penodi arweinydd clinigol ar gyfer clefyd seliag. Pwysleisiodd CC y ffaith ei bod yn bwysig bod dietegydd arbenigol yn gweld cleifion, gan nodi nad yw hyn o reidrwydd yn bosibl mewn gwasanaethau gofal sylfaenol. Croesawodd CC yr arferion da a daeth i’r amlwg, a phwysleisiodd bwysigrwydd y broses o werthuso gwasanaethau. Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid anfon y canlyniadau wedi i bob Bwrdd Iechyd gyflwyno eu hymatebion; bydd CC yn anfon nodyn atgoffa ond yn cau’r mater erbyn dyddiad penodol. Awgrymodd TH y dylai'r grŵp edrych ar y llwybr a’r ddogfennaeth gysylltiedig mewn mwy o fanylder yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Soniodd TH fod Coeliac UK (CUK) wrthi’n gwneud gwaith cychwynnol ar brosiect sydd wedi'i ariannu ac sy’n ymwneud â diagnosis, gyda ffocws posibl ar Gymru. Dywedodd TH ei fod yn gobeithio y gallai'r grŵp gynorthwyo’r broses o nodi hyrwyddwyr clinigol. Bydd y mater hwn yn cael ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Bydd TH yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y broses hon. |
| 3 | **Diweddariad llafar gan Ddietegydd Cenedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Ddietau Arbennig mewn Ysgolion**<br>a. Cyflwyno prydau ysgol am ddim a gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddietau arbennig<br><br>Wrth gyflwyno GJ, dywedodd RaI ei fod yn croesawu’r cam o gyflwyno prydau ysgol am ddim ledled Cymru. Dywedodd ei fod yn cydnabod bod hwn yn gyfnod cyffrous ond yn gyfnod hefyd a fyddai’n dod â nifer o heriau.<br><br>Siaradodd GJ am ei rôl fel dietegydd yn gweithio ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn edrych yn benodol ar ddietau arbennig. Siaradodd GJ am yr heriau a oedd yn gysylltiedig â’r ffaith bod y canllawiau cenedlaethol ar gyfer rheoli dietau arbennig mewn ysgolion yn gyfyngedig, a’r ffaith nad yw rhai ysgolion yn gallu darparu bwyd heb glwten (GF). Mynegodd GJ bryder nad oes data ar gael ar gyfer nifer y plant sydd ar ddietau arbennig yng Nghymru. Mae angen y data hyn ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn deall yr effaith ar arlwywyr ac ysgolion. Y disgwyl yw y bydd cynnydd yn y galw am ddietau arbennig pan fydd prydau ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno. Mae tystiolaeth anecdotaidd bod plant â chlefyd seliag yn aml yn dod â phecynnau cinio gyda nhw yn sgil materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth.<br><br>Nod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw datblygu canllawiau cenedlaethol y cytunir arnynt ar gyfer rheoli dietau arbennig – canllawiau y gellir eu hintegreiddio â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am i ysgolion fod yn rhan o'r broses hon, a hynny ar sail trefniadau cydweithio hirdymor rhwng sefydliadau cenedlaethol a sefydliadau lleol. Mae am sicrhau bod y ddarpariaeth yn deg ledled Cymru, ac mae wrthi’n edrych ar oblygiadau ariannol y broses o ddarparu ar gyfer dietau arbennig. |

| | |
|---|---|
| | Nod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw cynnwys yr ysgolion, y rhieni a’r plant yn y broses, a dilyn dull a arweinir gan ysgolion, yn hytrach na dibynnu’n llwyr ar arlwywyr, fel sydd wedi digwydd mewn llawer o ysgolion yn y gorffennol. Tynnodd GJ sylw at bwysigrwydd rhannu gwybodaeth ac arfer da. Yn ogystal, mae'n bwysig cael dull ysgol gyfan, a sicrhau bod y canllawiau yn berthnasol i’r diwrnod ysgol cyfan, gan gynnwys egwyliau, tripiau ysgol a gwersi coginio. Nododd hefyd y dylai prydau ysgol a ddarperir ar gyfer y rhai sydd ar ddietau arbennig fodloni’r canllawiau ar brydau iach yn rheoliadau'r ysgol, a dylent hefyd gynnig amrywiaeth i blant (er enghraifft, ni ddylent gynnig taten bob yn unig).<br><br>Soniodd GJ fod nifer o opsiynau yn cael eu hystyried, gan gynnwys cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd, gydag opsiwn ar gyfer dietau arbennig, neu weithio gyda dietegwyr clinigol ledled Cymru er mwyn cadarnhau pa gymorth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, a cheisio rhagweld faint o blant sydd â chlefyd seliag. Pwysleisiodd GJ bwysigrwydd mapio anghenion hyfforddi arlwywyr, a phenderfynu a oes angen i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddarparu hyfforddiant ar sail Cymru gyfan.<br><br>Croesawodd RaI ddull Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o edrych ar yr ysgol gyfan, a gofynnodd i GJ a oedd hi’n teimlo bod ganddi’r mewnbwn angenrheidiol i sicrhau bod ysgolion yn ymdopi â dietau arbennig. Dywedodd GJ fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd GJ bwysigrwydd cael data ynghylch nifer y plant ysgol sydd ag anghenion dietegol arbennig.<br><br>Awgrymodd RaI y dylai’r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu at y Gweinidog addysg er mwyn mynegi ei deimlad o gyffro ynghylch y cam o gyflwyno prydau ysgol cyffredinol ac ynghylch y rhan a chwaraeir gan ddietegwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, o ran sicrhau bod anghenion dietegol arbennig yn cael eu diwallu, ac er mwyn gofyn pa waith sy’n cael ei wneud i ganfod data ar ddietau arbennig cyn cyflwyno’r polisi hwn.<br><br>Roedd CC am wybod beth oedd y disgwyliadau o ran dietau arbennig ac am gael gwybodaeth ynghylch alergeddau lluosog. Dywedodd CC y gall ymddiriedaeth fod yn broblem, a gofynnodd sut y gellir rhoi sicrwydd i rieni a phlant y byddai cymorth priodol ar gael. Cytunodd RaI, ac awgrymodd y dylai’r llythyr at y Gweinidog gynnwys cyfeiriad at ymddiriedaeth gynhenid mewn perthynas â rhieni a gwarcheidwaid. |
| 4 | **Presgripsiynau**<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau rhagnodi ledled y DU ar hyn o bryd<br><br>Cafwyd diweddariad gan TH ar bolisïau rhagnodi heb glwten ledled y DU ar hyn o bryd.<br><br>- Mae gan Ogledd Iwerddon fodel rhagnodi traddodiadol y gellir cael mynediad ato drwy’r meddyg teulu. Mae'r gwasanaeth iechyd yn cael ei ailstrwythuro'n barhaus, ond ni chredir y bydd y broses hon yn effeithio ar gomisiynu yn y tymor byr.<br><br>- Mae gan yr Alban wasanaeth bwyd heb glwten dan arweiniad fferyllfeydd, lle mae presgripsiynau ac adolygiadau blynyddol yn cael eu |

| | |
|---|---|
| | rheoli gan y fferyllfa.<br><br>- Mae gan Loegr loteri cod post. O ran y 106 o Grwpiau Comisiynu Clinigol sy'n bodoli, mae hanner ohonynt wedi tynnu presgripsiynau yn ôl mewn rhyw ffordd. Yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd ledled Lloegr yn 2017, gwaharddwyd pob cynnyrch heblaw bara a chymysgeddau blawd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn bwysig, fodd bynnag, cafodd y Grwpiau Comisiynu Clinigol ryddid i bennu polisïau lleol mwy cyfyngol mewn achosion lle'r oeddent yn teimlo y byddent yn adlewyrchu anghenion eu poblogaethau. Yn y bôn, gosododd hyn nenfwd o ran bara a chymysgeddau blawd, ond dim llawr. Ym mis Gorffennaf 2022, bydd y 106 o grwpiau yn cael eu diddymu a'u disodli gan 42 o Systemau Gofal Integredig. Mae pryder y gallai hyn sbarduno ton arall o gyfyngiadau polisi. Mynegodd TH rwystredigaeth bod llawer o ymgynghoriadau wedi cael eu trin fel ymarferion ticio blychau, gyda'r penderfyniadau terfynol yn aml yn gwrthdaro â'r dystiolaeth a gyflwynwyd a barn y mwyafrif o ymatebwyr. Mae Coeliac UK yn ysgrifennu at yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y mater hwn.<br><br>b. Diweddariad ar gynllun peilot rhagnodi Hywel Dda a'r broses o'i gyflwyno yng Nghymru<br><br>Yn anffodus, nid oedd AJ yn gallu bod yn bresennol yn sgil salwch, felly cynigiodd TH roi diweddariad rhannol ar y mater hwn. Y bwriad oedd cwblhau'r cynllun cerdyn atodol a'i gyflwyno ar draws Bwrdd Iechyd Hywel Dda erbyn diwedd mis Ebrill 2022. Eglurodd TH fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol o'r prosiect ac am ei gyflwyno ledled Cymru. Mae AJ a Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Coeliac UK i gael barn yr elusen ar y cynllun a sicrhau ei mewnbwn yn gynnar yn y broses. Bydd panel gweithredu arbenigol yn cyfarfod o fis Mehefin ymlaen, a bydd Coeliac UK yn eistedd ar y panel. Tynnodd TH sylw at bwysigrwydd pennu cymorthdaliadau ar lefel sy'n briodol, yn gadarn ac yn dryloyw. Soniodd fod angen mynd i'r afael â heriau yn ymwneud â siopa ar-lein a chymorth dilynol, a bydd y materion hyn yn cael sylw yn y cyfarfod.<br><br>Pwysleisiodd TH fod Llywodraeth Cymru yn cynllunio dull model cymysg. Bydd y cerdyn atodol yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â model rhagnodi traddodiadol. Mae hyn yn hollbwysig gan fod rhywfaint o ddryswch wedi bod ymhlith fferyllwyr ynghylch goblygiadau'r broses o gyflwyno'r cynllun. Mae Coeliac UK wedi cael nifer o ymholiadau gan aelodau a oedd wedi cael gwybodaeth wallus yn nodi y byddai eu presgripsiynau yn dod i ben. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Dirprwy Brif Fferyllydd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru i egluro'r sefyllfa hon.<br><br>c. Cwestiynau a thrafodaeth<br><br>Roedd CC yn falch o glywed bod y dull dan sylw yn ddull model cymysg, gan fod yn well gan rai cleifion gael presgripsiynau. Gofynnodd CC sut y byddai'r model rhagnodi traddodiadol yn cael ei ddiogelu. Soniodd TH y byddai'r cynllun yn cael ei gymhwyso ychydig yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn ardal Hywel Dda, lle mae'r comisiynwyr yn trin y cerdyn atodol fel y dull a ffefrir. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd CC a ddylai presgripsiynau heb glwten gael eu hadolygu yn genedlaethol, ac a ddylid ystyried model lle gallai dietegydd neu nyrs arbenigol ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn hytrach na meddyg teulu. Cytunodd TH fod dilyn dull gweithredu cenedlaethol yn synhwyrol, a phwysleisiodd bwysigrwydd cysylltu'r pwyntiau hyn â'r drafodaeth ehangach ar lwybrau.<br><br>Cododd JW bryderon ynghylch lleihau'r cyswllt â meddygon teulu os yw'r broses o ragnodi yn cael ei cholli. Pwysleisiodd RaI bwysigrwydd y broses o ddarparu gofal dilynol. Roedd sylwadau'r grŵp yn galonogol iawn, gan fod y pwyntiau hyn yn adlewyrchu'r pwyntiau yr oedd Coeliac UK wedi'u codi gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r pwyntiau hyn yn debygol o fod yn sail i agenda'r grŵp gweithredu. |
| 5 | **Diweddariad ar Wythnos Ymwybyddiaeth a'r Ymgyrch Diagnosis Plant**<br>a. Yr ymgyrch diagnosis plant (o fis Ebrill ymlaen)<br>Cafwyd lansiad cyfyngedig o'r ymgyrch diagnosis plant, gan gynnwys fideos, astudiaethau achos ac animeiddiadau sydd i'w gweld ar wefan CUK. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn.<br>b. Gweithgarwch Wythnos Ymwybyddiaeth (9-15 Mai)<br>Diolchodd TH i RaI am gyflwyno Datganiad Barn yn y Senedd ynghylch Wythnos Ymwybyddiaeth Coeliac UK, a hynny fel modd o gadw clefyd seliag ar yr agenda a denu sylw Gweinidogion.<br>Eglurodd TH fod diagnosis yn broblem barhaus, a bod Wythnos Ymwybyddiaeth yn gyfle i dynnu sylw at hynny.<br>Cafwyd diweddariad gan TH ynghylch heriau codi arian CUK sy'n gysylltiedig â'r gymhareb 1 mewn 100 (sef nifer y bobl sydd â chlefyd seliag ledled y DU). Mae rhai o'r heriau hyn wedi bod yn drawiadol, a bydd yr astudiaethau achos hyn yn cael eu rhannu drwy gydol y flwyddyn.<br>Yn ogystal, gwelwyd amrywiaeth o waith ymgysylltu seneddol yn canolbwyntio ar ddiagnosis, gan gynnwys:<br>• Senedd Cymru:<br>  ○ Datganiad Barn<br>• Senedd yr Alban:<br>  ○ Cynnig i'r Senedd<br>  ○ Cwestiynau Ysgrifenedig<br>• Dau Dŷ Senedd y DU<br>  ○ Cwestiynau Seneddol<br>  ○ Digwyddiad bord gron ar ddiagnosis (gohiriwyd tan 7 Gorffennaf)<br>• Cynulliad Gogledd Iwerddon<br>  ○ E-byst recriwtio gan y Grwpiau Hollbleidiol yn targedu Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol.<br>Croesawodd RaI y datblygiadau a'r gwaith ym maes diagnosis. |

| | |
|---|---|
| 6 | **Unrhyw fater arall**<br>Nid oes gan CC gopi o gofnodion y cyfarfod blaenorol. Soniodd TH fod y cofnodion ar wefan y Grŵp Trawsbleidiol, ond dywedodd y byddai'n ailddosbarthu’r Cofnodion diweddaraf.<br>(DIWEDDARIAD: Mae tudalen we’r Grŵp Trawsbleidiol yn dangos y cofnodion anghywir ar gyfer y cyfarfod ym mis Hydref 2021. Mae TH wedi cysylltu â’r Swyddfa Gyflwyno yn gofyn am gael cywiro’r gwall hwn). |
| 8 | **Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**<br>Cynhelir y cyfarfod nesaf yn nhymor yr hydref 2022. Mae’r dyddiad i’w gadarnhau. |

| Camau gweithredu | Aelod |
|---|---|
| Dosbarthu canlyniadau’r arolwg ar wasanaethau dietetig | CC |
| Dosbarthu’r cyflwyniad am Brydau Ysgol Am Ddim a Dietau Arbennig | GJ |
| Dosbarthu cofnodion cyfarfod blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol | TH |
| Drafftio llythyr at y Gweinidog Addysg ynghylch darpariaeth prydau ysgol am ddim a dietau arbennig | TH |